

Dinas a Sir Abertawe

Adolygiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth 2012/13 (Y flwyddyn sy'n dod i ben ym mis Mawrth 2013)

Adroddiad - Fersiwn Gryno

Os oes angen yr wybodaeth hon arnoch mewn fformat gwahanol, e-bostiwch accesstoservices@swansea.gov.uk, ffoniwch 01792 636731 neu ysgrifennwch at: Swyddog Cydraddoldeb, Ystafell Bwyllgor 2.5.2, Canolfan Ddinesig, Heol Ystumllwynarth, Abertawe SA1 3SN.



Cyflwyniad

Dyma grynodeb o Adroddiad Adolygu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Dinas a Sir Abertawe ar gyfer 2012-13. Dyma ein hail adolygiad dan y Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus newydd ac mae'n adlewyrchu'r rheoliadau adrodd i Gymru, a gyflwynwyd yn 2011. Gallwch weld yr adolygiad llawn yn www.abertawe.gov.uk/equality.

Adolygu ein Hamcanion Cydraddoldeb

Gwnaethom adolygu cynnydd yn erbyn ein holl Amcanion Cydraddoldeb (sydd wedi'u cynnwys yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol www.abertawe.gov.uk/sep) ym mis Mai 2013 a darparu'r wybodaeth fanwl, ddiweddaraf yn yr adroddiad adolygu.

Gwybodaeth am gydraddoldeb

Rydym yn parhau i ddefnyddio gwybodaeth cydraddoldeb, e.e. i hysbysu Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb a digwyddiadau megis seminar i edrych ar y cysylltiadau rhwng anghydraddoldeb a thlodi.

Gwybodaeth am gyflogaeth a hyfforddiant

Mae'r wybodaeth bresennol am y gweithlu ar gael yn yr adolygiad adolygu llawn. Cynhaliwyd arolwg proffil y gweithlu ddechrau 2013. Mae angen mwy o waith i gyflawni dadansoddiad manylach o ran unrhyw gamau gweithredu mae angen i ni eu cynllunio ar gyfer y dyfodol, ond mae'r wybodaeth gychwynnol yn gadarnhaol gyda chyfradd ymateb ddigonol ar gyfer ein harolwg cyntaf o'i fath.

Gwybodaeth Ychwanegol

Mae'r adran hon yn rhoi manylion cryno am ein gwaith arall (sy'n berthnasol i ofynion y Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus) yn ystod 2012-13.

Pwyllgor Cydraddoldebau - Sefydlwyd Pwyllgor Cydraddoldebau yn 2012. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys cynghorwyr ac mae'n cwrdd yn fisol. Bydd yn cynnal ei adolygiad blynyddol cyntaf ym mis Mai 2013.

Aelodau Hyrwyddo Cydraddoldeb - Mae Aelodau Hyrwyddo'n sicrhau bod y mater neu'r grŵp y maent yn ei hyrwyddo yn cael ei ystyried wrth lunio polisiâu a phenderfyniadau'r cyngor. Mae ein Gweinyddiaeth wedi penodi nifer o Aelodau Hyrwyddo Etholedig a fydd yn cynnwys holl nodweddion gwarchoddedig y Ddeddf Cydraddoldeb (yn ogystal â themâu ehangach megis iechyd a lles, gofalwyr a cham-drin yn y cartref).

Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb (AEC) - Rydym yn diweddarau ein proses AEC er mwyn sicrhau ei bod mor gynhwysfawr ac effeithiol â phosib. Rydym yn parhau i gyhoeddi pob adroddiad AEC yn www.abertawe.gov.uk/eia yn ogystal â'n gwaith cyllideb AEC.

Ymgynghori a Chynnwys - Mae gennym Strategaeth Ymgynghori a Chynnwys newydd ar waith ac rydym wedi parhau i ddatblygu ein perthynas â grwpiau cymunedol lleol trwy, er enghraifft, y Fforwm BME (Lleiafrifoedd Ethnig a Du),

a'r Fforwm LGBT (Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsrywiol). Cynhelir y ddau mewn partneriaeth â Heddlu De Cymru.

Achosion o Aflonyddu a Chasineb -Mae ein Gweithdrefn Achosion o Aflonyddu a Chasineb yn parhau i gael ei defnyddio ac rydym yn gweithio'n agos gyda'n cydweithwyr yn Heddlu De Cymru a Chydnerthu. Rydym hefyd wedi canolbwyntio ar droseddau casineb yn erbyn pobl anabl a byddwn yn dechrau gwaith yn fuan ar Strategaeth Troseddau Casineb mewn partneriaeth â Heddlu De Cymru.

Gwaith Rhanbarthol a Phartneriaeth - Rydym yn parhau i weithio gyda sefydliadau eraill y sector cyhoeddus trwy ein Grŵp Cydraddoldeb Rhanbarthol, yn ogystal â gweithgareddau eraill megis y rhai y soniwyd amdanynt eisoes.

Achrediad Marc Enfys a Stonewall - Rydym bellach yn aelodau o raglen Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall gan nad yw achrediad y Marc Enfys yn bodoli mwyach o ganlyniad i gau Canolfan Ragoriaeth LGBT.

Gwaith gyda phobl hŷn - Mae gwaith eleni wedi cynnwys digwyddiadau, fforymau, cylchlythyr, gweithgareddau ymgynghori a gwaith partneriaeth - gan ganolbwyntio ar faterion megis iechyd, gofal cymdeithasol a lles, eiriolaeth, gwaith rhwng y cenedlaethau a Thrydydd Cam Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Llywodraeth Cymru.

Rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru - Rydym wedi bod yn rhan o 3 gweithdy cenedlaethol a 2 ddigwyddiad am y rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru.

Cydluniant Cymunedol - Mae'r cynllun cyflwyno lleol ar gyfer Cydluniant Cymunedol wedi'i ddrafftio gyda threfniadau yn eu lle i sicrhau cynnydd a monitro.

Tlodi - Mae mynd i'r afael â thlodi yn flaenoriaeth allweddol i'r cyngor. Mae'r Prif Weithredwr yn cadeirio Fforwm Tlodi, sy'n gweithio ar themâu allweddol gan gynnwys incwm a dyled, cefnogi teuluoedd, diweithdra, cyrhaeddiad addysgol ac anghydraddoldebau iechyd.

Diwygio Lles - Mae gweithgareddau presennol i liniaru effaith negyddol diwygiadau lles yn cynnwys hyfforddi staff, gweithio aml-asiantaeth ac ymgyrchoedd cynyddu ymwybyddiaeth.

Monitro mewn ysgolion - Mae gwaith wedi dechrau ar ddatblygu proses fonitro syml ac effeithiol er mwyn i ysgolion gofnodi bwllo ac aflonyddu sy'n ymwneud â hunaniaeth.

Cynllunio Busnes - Mae proses cynllunio busnes y cyngor yn parhau i gynnwys materion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad cymdeithasol.

Hyfforddiant - Roedd y cyfleoedd a oedd ar gael i staff eleni yn cynnwys ymwybyddiaeth o fyddardod, sesiwn rhagflas Iaith Arwyddion Prydain (IAP) a hyfforddiant troseddau casineb.

Fersiwn hawdd ei darllen - Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol mewn fformat hawdd ei ddarllen unwaith eto eleni.

Gwasanaeth Cyfieithu a Dehongli Cymru (GCDC) - Mae gennym ymagwedd gydlynol at bob dehongliad a chyfieithiad. Ar ôl nifer cynyddol o geisiadau am gyfieithu a chyfieithu ar y pryd wedi i ni ymaelodi â phartneriaeth GCDC, mae nifer yr achlysuron pan gysylltwyd â GCDC wedi sefydlogi ac mae'n weddol gyson trwy gydol y flwyddyn.

Mae gwaith wedi dechrau ar drefnu cynllun peilot Cyfieithu Ar y Pryd Nawr ar gyfer ein canolfan gyswllt, lle bydd modd i bobl y mae eu hiaith gyntaf yn IAP dderbyn gwasanaeth cyfieithu ar y pryd uniongyrchol trwy we-ddolen fideo.

Cronfa Newid - Cefnogwyd 22 sefydliad gwirfoddol mawr a bach yn ariannol yn ystod 2012-13 trwy grantiau i gyflwyno gwasanaethau a phrosiectau ar draws Abertawe.

Arian ar gyfer Plant a Phobl Ifanc LGBT - Dyfarnwyd grantiau i ddau sefydliad weithio ar y cyd ar wasanaeth peilot ar gyfer pobl ifanc LGBT rhwng 13 a 25 oed.

Sylwadau cloi

Rydym wedi gwneud cynnydd yn erbyn ein Hamcanion Cydraddoldeb eleni (y gellir eu gweld yn yr adroddiad adolygu llawn) ac rydym yn gadarnhaol am swm yr wybodaeth ychwanegol sydd gennym i'w hadrodd.

Er ein bod yn gadarnhaol am ein cynnydd hyd yn hyn, rydym yn gwybod bod mwy o waith i'w wneud ac rydym yn edrych ymlaen at heriau'r flwyddyn sydd i ddod.